



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TB Gwartheg

Lleihau'r risg yn Ardal TB Canolradd y Gogledd (ITBAN)



Mae Ardal TB Canolradd y Gogledd (ITBAN) wedi gweld cynnydd aruthrol yn nifer yr achosion newydd o TB.



Yn **2017** yn unig, roedd yna **63** o achosion newydd o TB



sy'n **gynnydd o 75%** o'i gymharu â'r **36** o achosion yn y **12** mis cyn hynny

Dyma'r ffigur blynyddol uchaf ers 2013 (66). Mae'r sefyllfa'n debyg dros y ffin yn Swydd Gaer a Swydd Amwythig.

O 13 Tachwedd 2018, bydd mesurau cryfach i gadw golwg ar TB yn dechrau yn yr ITBAN er mwyn darganfod achosion yn gynt a gostwng nifer yr achosion newydd.

Mae'r Ardal TB Canolradd yn ffinio â'r Ardal TB Isel a rhaid inni amddiffyn honno os ydym am daro'n nod o roi Statws heb TB swyddogol i'r ardal gyntaf yng Nghymru erbyn 2023. Mae'n bwysig felly bod ffermwyr gwartheg yn dal i gymryd camau i warchod eu gwartheg rhag TB.

Dyma fydd y camau cyntaf i geisio troi'r rhod yn yr ITBAN; rydyn ni wrthi'n ystyried mesurau eraill hefyd ar gyfer lleihau TB yn yr ardal.



Profion ychwanegol o gwmpas buchesi sydd wedi'u heintio â TB







Caiff profion ychwanegol eu cynnal ar fuchesi sy'n ffinio â buchesi sydd wedi'u heintio â TB (sydd â Statws heb TB swyddogol wedi'i ddi-ddymu (OTFW)). Mae hynny'n golygu cynnal prawf cyntaf ar y fuches gyffiniol, yna prawf cyffiniol 6 mis ar ôl y prawf cyntaf, yna prawf cyffiniol ar ôl 6 mis arall ac yna prawf 'cyffiniol 12', 12 mis yn ddiweddarach.

Amcan gwneud hyn yw cael hyd i'r clefyd yn gynt a chael hyd i achosion na chawsant eu datgelu cyn hynny er mwyn ennill y blaen ar y clefyd a rhwystro achosion newydd o TB.

Rhanbarthau TB Cymru

Ardaloedd TB



-  Ardal TB Uchel Dwyrain
-  Ardal TB Uchel Gorllewin
-  Ardal TB Canolradd Gogledd
-  Ardal TB Canolradd Canolbarth
-  TB Isel
-  Achosion yn ITBAN Gorffennaf 2017 hyd Fehfin 2018



Ymweliadau Cymorth TB i 'Gadw TB allan'

Bydd Cymorth TB yn trefnu ymweliadau 'Cadw TB Allan' â ffermwyr yn yr ITBAN sydd wedi cael profion TB cyffiniol clir. Bydd buchesi sydd ag achos o TB yn cael ymweliad cyffredin gan Cymorth TB.

Bydd ymweliadau 'Cadw TB Allan' yn cynnwys cyngor personol ar fesurau ymarferol y gallai'r ffermwr eu cymryd i gadw TB allan o'r fferm.

Prynu Gwybodus

Mae'n bwysig cofio bod wastad elfen o risg wrth brynu gwartheg y gallen nhw ddod â chlefyd i'ch fferm. Mae'n bwysig iawn felly bod yna wybodaeth am sefyllfa TB y gwartheg yn y man gwerthu fel bod prynwyr yn deall y perygl o gyflwyno'r clefyd i'w buches gartref. Bydd ffermwyr wedyn yn gallu seilio'u penderfyniadau ar yr wybodaeth orau a chymryd camau synhwyrol wrth gyflwyno anifeiliaid newydd i'w fferm.

Gall gwybodaeth yn y man gwerthu:

- Ddiogelu buchesi rhag y clefyd;
- Lleihau'r perygl o ledaenu'r clefyd i ardaloedd newydd;
- Helpu i gadw buchesi'n iach a chynhyrchiol;
- Lleihau'r gost sy'n dod yn sgil achos o TB.

Arolwg o Foch Daear Marw

I gael darlun gwell o'r clefyd mewn moch daear yn yr ardal, a wnaiff pawb sy'n cael hyd i fochyn daear marw ffonio **0808 1695110** am ragor o wybodaeth a chyfarwyddiadau ynghylch beth i'w wneud â'r corff.



Rhagor o Wybodaeth a Chysylltiadau Defnyddiol

Am ragor o wybodaeth am y polisiau TB diweddaraf a dogfen Holi ac Ateb fanwl sy'n sôn am yr holl fesurau diweddar yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/tbmewngwartheg

Cewch wybodaeth fanylach am bob agwedd ar reoli TB yn:

www.tbhub.co.uk

www.ibtb.co.uk

www.checs.co.uk

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Gwefan: www.gov.uk/apha

Ffôn: 03003038268

Rhwydwaith y Gymuned Ffermio

www.fcn.org.uk

Bwrdd Rhanbarthol y Gogledd

info@tbboard.cymru

Partneriaid Cyflenwi Milfeddygol

Menter a Busnes

www.menterabusnes.co.uk

Iechyd Da

www.i-da.co.uk